CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Gogledd Cymru
North Wales Centre

Un o fentrau
**Llywodraeth Cymru**
**Welsh Government**
Initiative

# Bwletin Tiwtoriaid




01248 383928
www.learncymraeg.org

rhannwch eich Cymraeg
We'll bring out the Cymraeg in you

# Rhaglen Hyfforddi Medi- Rhagfyr 2011

| Dyddiad ac Amser | Lleoliad | Teitl | Cod | Cynnwys | Yn addas ar gyfer pwy? | Hyfforddwr/wyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1-2 Hydref<br>(Penwythnos preswyl)<br><br>10.00 o'r gloch dydd Sadwrn tan<br>16.00 o'r gloch dydd Sul | Plas Menai<br>Y Felinheli | **Paratoi i Addysgu (Sesiwn 3)** | HYFF12-02 | Sesiwn olaf yn y rhaglen o hyfforddiant i ddarpar diwtoriaid a thiwtoriaid newydd, yn cynnwys arweiniad ar:<br>• arweiniad ar gyfer y gwersi cyntaf<br>• sut mae llunio cynlluniau gwers<br>• sesiynau meicroddysgu | Darpar diwtoriaid a thiwtoriaid newydd | Haydn Hughes<br><br>Elin Williams<br><br>Sian Eirian Davies |

## Cynhadledd Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru

### Gwesty Ramada Wrecsam

### 22-23 Hydref 2011



Mae'n siŵr bod rhai ohonoch yn cofio'r cynadleddau llwyddiannus a gynhaliwyd yn Llangollen ac yn Llanberis rai blynyddoedd yn ôl lle'r oedd hyd at 100 o diwtoriaid y gogledd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau, i fynegi barn ar y ddarpariaeth ac i gymdeithasu a rhannu syniadau. Byddwch yn falch o glywed ein bod eleni wedi ychwanegu cynhadledd o'r fath at ein rhaglen hyfforddi.

Bydd cyfraniadau gan:

- Aled Roberts AC
- Côr DAW
- Cyril Jones
- Eleri Hughes
- Elwyn Hughes
- Geraint Løvgreen
- Ifor ap Glyn
- Ioan Talfryn
- Nia Parry
- Swyn Spencer
- Staff Canolfan Cymraeg i Oedolion

Rhaid cofrestru i fynychu'r gynhadledd erbyn **30 Medi 2011** trwy gysylltu ag Elen Lois Williams ☎01248 383690 elen.l.williams@bangor.ac.uk.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25-27 Tachwedd<br><br>(nos Wener i bnawn Sul) | Plas Tan-y-bwlch<br>Maentwrog | **Y Cymhwyster Cenedlaethol** | HYFF12-07 | Penwythnos 2<br>• Modiwl 3 - 4 | Myfyrwyr Y Cymhwyser Cenedlaethol, 2010 - 2012 | Haydn Hughes<br><br>Elin Williams<br><br>Sian Eirian Davies |

## Dach chi'n adnabod rhywun sydd eisiau bod yn diwtor Cymraeg i oedolion?



Beth am eu hannog i wneud cais i'r Ganolfan am hyfforddiant yn 2012?

Ewch i'r wefan am fwy o fanylion

www.learncymraeg.org/cymraeg/tiwtoriaid

neu cysylltwch â s.davies@bangor.ac.uk

## Awyddus i gael cymhwyster dysgu?

Mae'r Cymhwyster yn:

- 60 credyd
- cynnwys 4 modiwl
- cwrs cyfunol gyda chyfran o'r hyfforddiant ar-lein
- rhan amser a thros gyfnod o ddwy flynedd
- cynnwys ymarfer dysgu (75 awr)
- gofyn i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig
- gyfystyr â blwyddyn 1 Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)
- Am ddim!



**Rydym yn recriwtio rŵan ar gyfer cylch 2012 - 2014.**
**Cysylltwch â s.davies@bangor.ac.uk am fwy o fanylion**

### COFRESTRU

Rhaid cofrestru i fynychu hyfforddiant o leiaf 7 diwrnod gwaith cyn y sesiwn trwy gysylltu ag Elen Lois Williams ☎01248 383690 elen.l.williams@bangor.ac.uk. Gofynnir i chi ddyfynnu cod yr hyfforddiant wrth gofrestru yn ogystal â nodi unrhyw anghenion dietegol neu symudedd all fod gennych.

### COSTAU

Rhoddir cydnabyddiaeth i diwtoriaid rhan amser yn unig am fynychu hyfforddiant (£35.00 - hanner diwrnod, £50.00 diwrnod cyfan o hyfforddiant). Ni roddir cydnabyddiaeth i diwtoriaid ar gytundeb llawn amser neu ffracsiynol, myfyrwyr y Cymhwyster Cenedlaethol na darpar diwtoriaid.

Ad-delir costau teithio tiwtoriaid am fynychu hyfforddiant, yn unol â'r graddfeydd diweddaraf (40c y filltir). Fe'ch anogir i rannu car â chyd diwtor neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus os yn bosibl, yn unol â pholisi'r Ganolfan.

Gofynnir i diwtoriaid gwblhau ffurflen hawlio costau ar ddiwedd yr hyfforddiant. Er mwyn hawlio unrhyw gostau parcio, rhaid cyflwyno tocyn parcio gyda'r ffurflen. Bydd tâl am fynychu (os yn berthnasol) yn ogystal â chostau teithio yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc 2-6 wythnos wedi'r dyddiad sydd ar y ffurflen hawlio. Os ydych yn diwtor rhan amser gyda Phrifysgol Bangor bydd y tâl am fynychu yn cael eu hychwanegu at eich cyflog misol.

### EICH BARN

Ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddiant gofynnir i chi gwblhau ffurflen werthuso. Ystyrir eich sylwadau wrth lunio rhaglen a chynnwys y rhaglen hyfforddi mewn ymdrech i sicrhau bod y Ganolfan yn ateb gofynion hyfforddi tiwtoriaid y rhanbarth. Diolch rhag blaen am eich cymorth.

Taith Iaith
Taith Iaith
Taith Iaith
Taith Iaith

Yn dilyn yr ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar ar effaith y Cynlluniau Dysgu Unigol, rydym wedi gwrando ar eich barn chi a'r dysgwyr. Erbyn hyn, byddwch wedi derbyn y CDU newydd gan eich tiwtor drefnydd, sef 'Taith Iaith' sydd â ffocws wahanol iawn a phwyslais penodol ar ymarfer Cymraeg y dysgwyr. 'Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar hwn yn ogystal, ac hefyd fe fydd sesiwn yn cael ei gynnal ar 'Taith iaith' yn y Gynhadledd.



# Cynhadledd Flynyddol IATEFL, Brighton, 15-19 Ebrill 2011

Eleni, llwyddodd 10 o diwtoriaid i gael eu noddi gan y Ganolfan i fynychu cynhadledd IATEFL. Mae'r gynhadledd flynyddol hon wedi'i thargedu ar gyfer ymarferwyr Saesneg ail iaith yn bennaf, ond mae hefyd yn denu nifer o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Ewch i wefan y Ganolfan i ddarllen rhagor gan y tiwtoriaid eu hunain am y syniadau a'r gweithgareddau newydd a welwyd ar waith yn y gynhadledd, ond yn y cyfamser, dyma damaid o'u profiad:



Dyma'r tro cyntaf i mi fynd i gynhadledd IATEFL a baswn yn argymell i unrhyw un sy'n cael cynnig i fynd i gynhadledd o'r fath fanteisio ar y cyfle! Er ei fod yn gynhadledd dysgu Saesneg fel ail iaith roedd hi'n syndod pa mor berthnasol oedd o ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion hefyd... Mi es i i nifer o sesiynau gwahanol ond yn bendant y rhai mwyaf defnyddiol i mi oedd rhai oedd yn cynnig syniadau ar gyfer dysgu – defnyddio lluniau a delweddau, sut i wella gwaith gwrando a defnyddio'r cof.

**Bethan Glyn, Prifysgol Bangor**



Wrth edrych yn ôl ar y gynhadledd, y cyfle i wrando ar gymaint o siaradwyr ysbrydoledig sy'n sefyll allan yn y cof. Heblaw am un eithriad, roedd pob siaradwr yn credu'n gryf yn ei bwnc ac yn trosglwyddo eu brwdfrydedd i'r gynulleidfa. Cawsom gyfle i wrando ar syniadau rhyngwladol, casglu syniadau newydd, ac mewn rhai achosion roeddwn yn falch o wybod ein bod ni yng Nghymru, os nad ar flaen y gad, yn sicr gystal â neb, yn arbennig ym maes arsylwadau a dysgu gwahaniaethol.

**Frances Jones, Popeth Cymraeg**



Bûm mewn nifer o sesiynau dros gyfnod y gynhadledd ac roedd y mwyafrif yn ddiddorol ac yn addysgiadol. Roedd yn braf cyfarfod pobl eraill sydd yn yr un cwch â ni - yn dysgu ail iaith ym mhedwar ban byd - a chlywed eu profiadau nhw. Ond y peth gorau am y gynhadledd yma, yn fy marn i, oedd y ffaith fy mod, fel tiwtor newydd eleni, wedi cael y cyfle i ddod i adnabod tiwtoriaid eraill a fynychodd y gynhadledd ychydig yn well.

**Llinos Jones, Coleg Llandrillo**

**Cynhelir cynhadledd 2012 yn Glasgow, 19 - 23 Mawrth.**
**Cysylltwch â'r Ganolfan mewn da bryd i wneud cais i'w mynychu**
**s.davies@bangor.ac.uk**

# Gweithgareddau Dysgu Anffurfiol...




Mae nifer o weithgareddau anffurfiol yn cael eu trefnu ym mhob ardal yn y Gogledd. Dylech fod wedi derbyn cyflenwad o'r cardiau post yn eich cyfarfodydd dechrau tymor, os nad ydych chi, neu angen mwy, cysylltwch â Siwan Hywel ar
☏ 01248 388248 / siwan.hywel@bangor.ac.uk.
I gael gwybodaeth am weithgareddau anffurfiol yn eich ardal chi, ewch i'n gwefan www.learncymraeg.org a chlicio ar weithgareddau yn eich ardal chi. Hefyd wrth gwrs, bydd y wybodaeth yn dod ar e-bost neu trwy'r post os fyddwch chi a'ch dysgwyr wedi cofrestru ar y cardiau post.